Department for Culture Media & Sport

listed places of worship grant scheme

Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig

www.lpwscheme.org.uk

DIWYGIWYD HYDREF 2013

Mae'r arweiniad hwn i gyd-fynd â'r Cynllun Mannau Addoli Rhestredig a ddaw i rym ar **1 Hydref 2013**.

DARLLENWCH HWN YN LLAWN CYN I CHI GWBLHAU EICH CAIS

Arweiniad i'r Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig

Tabl y Cynnwys

Cyflwyniad **tudalen 1**

Cefndir *tudalen 1*

Crynodeb **tudalen 2**

Cyllid sydd ar gael *tudalen 2*

Taliadau *tudalen 2*

Newidiadau i'r cynllun *tudalen 2*

Newidiadau a wnaed i'r cynllun ar ôl 1 Hydref 2013 *tudalen 2*

Newidiadau blaenorol a wnaed i'r cynllun ar 1 Hydref 2012 *tudalen 3*

Trefniadau trawsnewidiol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi *tudalen 4*

Rhestr Wirio Cymhwyster *tudalen 4*

Tabl Gwariant Cymwys *tudalen 5*

Tabl Gwariant nad yw'n gymwys *tudalen 6*

Rhagor o arweiniad ar gymhwyster *tudalen 7*

Gwaith Galluogi *tudalen 7*

Y Broses 4 Cam. **tudalen 8**

Cam 1 – Addoldy *tudalen 8*

Cam 2 – Adeilad Rhestredig *tudalen 10*

Cam 3 –Gwariant Cymwys *tudalen 11*

Cam 4 –Cwblhau'r Cais *tudalen 15*

Cwestiynau Cyffredin **tudalen 18**

Atodiad A – Cysylltiadau Rhestru *tudalen 21*

Gwneud cais i gael adeilad wedi'i restru *tudalen 22*

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig yn cynnig grantiau tuag at y TAW a achoswyd drwy wneud atgyweiriadau a newidiadau i adeiladau rhestredig a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer addoli cyhoeddus.

Cynlluniwyd yr arweiniad hwn i'ch helpu i gwblhau eich cais. Darllenwch hwn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen gais.

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, siaradwch ag un o'n cysylltyddion ar 0845 013 6601. Codir tâl am alwadau ar y gyfradd leol.

Er mwyn osgoi'r posibilrwydd o ddyblygu taliadau, rydym yn rhannu rhywfaint o'r wybodaeth rydych yn ei darparu i ni gyda sefydliadau eraill sy'n darparu grantiau megis Historic England, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, dosbarthwyr perthnasol eraill y Loteri ac asiantaethau treftadaeth gweinyddiaethau datganoledig, Cadw, Historic Scotland ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon. Byddwn yn dal rhywfaint o'r wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y gronfa ddata ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i brosesu ceisiadau a grantiau ac i gynhyrchu ystadegau.

Cefndir

Mae Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig:

- yn gymwys ar gyfer atgyweiriadau, cynnal a chadw a gwaith addasu ar adeiladau rhestredig a ddefnyddir yn bennaf yn fannau addoli ac addoldai rhestredig sy'n perthyn i neu sydd wedi'u hymddiried i nifer o sefydliadau a nodir, sy'n gofalu am addoldai segur;
- yn gymwys i addoldai rhestredig ledled y DU sy'n gynwysedig ar gofrestrau cyhoeddus adeiladau rhestredig a gedwir ar gyfer Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon;
- yn gymwys i addoldai rhestredig ar gyfer pob crefydd a grŵp ffydd;
- yn derbyn ôl-geisiadau yn unig;
- ond yn derbyn hawliadau lle y caiff anfonebau eu cyflwyno o fewn 12 mis o ddyddiad yr anfoneb, gweler nodyn 3.2; ac
- ond yn derbyn ceisiadau lle mae gwerth lleiaf y gwaith cymwys a wneir ar unrhyw hawliad i'r cynllun yn £1,000 (ac eithrio TAW) (gweler Nodyn 3.1 am eithriad i hyn).

Disgwylir i hawlwyr sicrhau y ceisir am bob cymorth TAW cymwys arall cyn ceisio am grant o dan y cynllun. Rhoddir enghreifftiau o gymhorthau TAW eraill a allai fod ar gael i addoldai rhestredig yn Nodyn 3.5.

Crynodeb

Cyllid sydd ar gael

Mae gan y cynllun gyllideb flynyddol sefydlog a gaiff ei hysbysebu ar wefan y Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig (www.lpwscheme.org.uk) bob blwyddyn.

Cynyddwyd y cyllid ar gyfer y cynllun yn sylweddol o 2012/13 a chadarnhawyd y gyllideb tan fis Mawrth 2020. Rydym yn hyderus y bydd y cyllid hwn yn galluogi iawndal llawn ar gyfer hawliadau o dan y cynllun. Os yw'n digwydd nad yw hynny'n wir, er bod hynny'n annhebygol, rhoddir rhybudd ymlaen llaw pe bai angen cyflwyno terfyn ar y taliad neu newid i amlder y taliadau.

Ein nod yw talu hawliadau cymwys o fewn 30 diwrnod calendr, lle bo'r ddogfennaeth gywir yn cyd-fynd â nhw, ac ar ôl i unrhyw ymholiadau gael eu datrys. Mae hawliadau mawr a chymhleth a'r rhai a gyflwynir heb y ddogfennaeth gywir a chyflawn yn debygol o ofyn am gyfnod prosesu hirach er mwyn caniatáu i ymholiadau gael eu datrys.

Mae'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Thrysorlys Ei Mawrhydi yn cynnal cyfarfodydd bob chwe mis gyda chynrychiolwyr o grwpiau ffydd er mwyn adolygu'r sefyllfa ariannol a gweithrediad y cynllun.

Taliadau

Caiff taliadau eu gwneud unwaith yr wythnos. Bob mis, byddwn yn cyhoeddi gwerth yr hawliadau a dderbyniwyd yn erbyn y gyllideb.

Newidiadau i'r cynllun

Cafodd nifer o newidiadau eu gwneud i'r cynllun ers ei gychwyn. Mae'r newidiadau diweddaraf wedi cyflwyno ystod ehangach a newidiadau i gwmpas y cynllun. I grynhoi:

- **o 1 Hydref 2012**, ehangwyd cwmpas y cynllun er mwyn cynnwys y rhan fwyaf o newidiadau a gymeradwywyd i addoldai rhestredig, gan gynnwys gwaith plymio a thrydanol, gwaith i geginau a ffitiadau toiledau, rhai gorchuddiadau llawr a chanllawiau, gwaith addurno, eisteddleoedd, tynnu asbestos, a systemau diogelwch a fforensig i atal troseddau. Daeth y gwaith hwn yn gymwys lle y cafodd ei wneud ar y dyddiad hwn neu ar ôl hynny.

- **o 1 Hydref 2013**, daeth y rhan fwyaf o ffioedd proffesiynol, clociau mewn tyredau gan gynnwys rhai hunan weindio, clychau a gwaith ar organau pib hefyd yn gymwys ar gyfer y cynllun lle y caiff ei wneud ar y dyddiad hwn neu ar ôl hynny. Darllenwch isod i gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn a chael manylion ar ba waith yn union sydd o fewn cwmpas y cynllun bellach.

Newidiadau a wnaed i'r cynllun ar ôl 1 Hydref 2013

Yn dilyn adolygiad o gyllid a gweithrediad y cynllun, caiff y cyfyngiadau canlynol ar gymhwyster eu dileu ar gyfer gwaith a wneir ar 1 Hydref 2013 neu ar ôl hynny:

- Daeth **clociau mewn tyredau** gan gynnwys rhai hunan weindio yn gymwys.

- Daeth **clychau a rhaffau clychau** (yn ogystal â fframiau clychau) yn gymwys

- Daeth **organau pib** yn gymwys

- Mae cost **gwasanaethau proffesiynol**, sy'n perthyn yn uniongyrchol i waith adeiladu cymwys, gan gynnwys gwaith sy'n angenrheidiol ar gam cynllunio a dylunio gwaith o'r fath, yn gymwys ers 1 Hydref 2013. Erys ffioedd proffesiynol nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gwaith adeiladu cymwys yn anghymwys.

Rhoddir enghreifftiau o ffioedd proffesiynol cymwys ac anghymwys yn y tabl isod. Nid yw'r rhestr hon yn un drylwyr.

Cymwys	
Penseiri	Syrfewyr
Ymgynghorwyr ar gadwraeth	Peirianwyr strwythurol
Arolygwyr ystlumod neu	Archeolegwyr ar gyfer gwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer prosiectau adeiladu cymwys (rhai presennol rai arfaethedig)
Goruchwylwyr cynllunio	Ymgynghorwyr iechyd a diogelwch
Cynlluniau cynnal a chadw	Cadwraethwyr Achrededig
Anghymwys	
Gwasanaethau cyfrifo	Costau sy'n gysylltiedig ag ymgymryd ag arolygiadau bob pum mlynedd
Ffioedd yr awdurdod lleol	Taliadau'r gyfadran esgobaethol
Ffioedd twrneiod a chyfreithwyr	Ffioedd codi arian

Os bydd hawliad yn **ymwneud â gwaith cyn 1 Hydref 2013**, ac ar ôl hynny, mae'n rhaid ei ddatgan, naill ai ar yr anfoneb neu ar y cais fel ei fod yn glir faint o'r costau sy'n gymwys. Ym mhob achos, mae'n rhaid darparu anfoneb er mwyn dangos y gwaith y mae'r ffioedd yn perthyn iddynt.

Lle bo cost y ffioedd proffesiynol yn berthnasol i waith cymwys ac anghymwys, mae'n bosibl y bydd yn angenrheidiol dosrannu ffioedd o'r fath, gweler Nodyn 3.10. Un enghraifft o hyn fyddai lle bo rhan o'r addoldy rhestredig yn cael ei drawsnewid yn llety preswyl. Gall un arall fod lle bo'r ffioedd proffesiynol yngl n â gwaith ar yr addoldy rhestredig ac adeilad ategol nad yw'n gymwys o dan y cynllun.

- **Gwerth isafswm yr hawliad**
  O 1 Hydref 2013, bydd pob addoldy rhestredig hefyd yn cael cyflwyno un hawliad gwerth llai na £1000, ond yn fwy na £500 (ac eithrio'r TAW a dalwyd) mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis. Mae hyn yn ogystal â nifer diderfyn o hawliadau lle bo gwerth y gwaith cymwys a wnaed (ac eithrio TAW) yn gyfwerth â £1000 neu'n fwy.

- **Anfonebau wedi'u llungopïo / sganio**
  O 1 Hydref 2013, bydd y cynllun yn derbyn anfonebau wedi'u sganio neu eu llungopïo; fodd bynnag, bydd angen o hyd i gyflwyno'r anfoneb wreiddiol, neu gopi a ardystiwyd gan y contractwr, os bydd yr hawliad yn destun archwiliad ôl-dalu.

Newidiadau blaenorol a wnaed i'r cynllun ar 1 Hydref 2012

- **Gwaith plymio a thrydanol (gan gynnwys goleuadau), gosodiadau a chyflenwadau**
  Cyn 1 Hydref 2012, cyfyngodd y cynllun ar hawliadau ar gyfer atgyweiriadau ar gyflenwadau plymio a thrydanol lle roeddent yn ffurfio rhan o waith iechyd a diogelwch, dirywio oherwydd oedran, cawsant eu gwneud ar yr un pryd â gwaith cymwys, arweiniont at uwchraddio gwasanaethau neu fe'u bwriadwyd i wella effeithlonrwydd ynni. Dilewyd y cyfyngiad hwn ar gyfer hawliadau ar bob gwaith a wnaed ar 1 Hydref 2012 neu ar ôl hynny.

- **Gwaith gosodiadau a chyflenwadau gwresogi (gan gynnwys bwyleri, rheiddiaduron ayyb)**
  Cyn 1 Hydref 2012, cyfyngodd y cynllun ar bob hawliad ar gyfer gwresogi. Dilewyd y cyfyngiad hwn ar gyfer pob gwaith a wnaed ar 1 Hydref 2012 neu ar ôl hynny.

- **Ceginau a ffitiadau toiledau, gorchuddiadau llawr a chanllawiau**
  Ers 1 Hydref 2012, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ar geginau, ffitiadau toiledau, gorchuddiadau llawr parhaol a chanllawiau wedi bod yn gymwys ar gyfer y cynllun. Mae hawliadau ar eitemau datodadwy megis dodrefn, silffoedd, hysbysfyrddau, peiriannau golchi llestri a ffyrnau yn anghymwys o hyd. Fodd bynnag, lle bo'r gwaith yn creu toiledau neu ystafelloedd ymolchi newydd ar gyfer pobl anabl, dylai gwaith o'r fath fod â chyfradd sero o dan gymorth TAW presennol (gweler Hysbysiad Cyhoeddus 701/7 Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi – cymhorthau TAW ar gyfer pobl anabl). Bu gorchuddiadau llawr yn gymwys ers 1 Hydref 2012 dim ond lle y bônt yn barhaol ac yn rhan o ffabrig yr adeilad. Mae hyn yn cynnwys lloriau pren, carreg, cerameg, marmor, neu rai solet. Nid yw'n cynnwys carpedi, finyl, teils y gellir eu tynnu neu ddodrefn meddal addurniadol.

- **Gwaith addurno**
  Cyn 1 Hydref 2012 roedd y cynllun yn cyfyngu ar hawliadau ar addurno lle ymgymerwyd â'r gwaith drwy ddewis. Nid yw hyn bellach yn wir ac, o 1 Hydref 2012, mae gwaith addurno (gan gynnwys cerfiadau, gwaith carreg, ailbeintio) yn gymwys, cyhyd â'i fod ar ffabrig yr adeilad

- **Eisteddleoedd**
  Cafodd hawliadau i atgyweiriadau ar eisteddleoedd eu tynnu allan o gwmpas y cynllun ym mis Ionawr 2011. Mae gwaith ar eisteddleoedd (gan gynnwys clustogau, clustogau pen-glin a hesorau sydd ynghlwm yn barhaol) bellach yn gymwys ar gyfer gwaith a wneir o 1 Hydref 2012. Erys unrhyw eitemau nad ydynt yn rhai sefydlog yn anghymwys.

- **Tynnu asbestos ymaith**
  Cyn 1 Hydref 2012, roedd tynnu asbestos yn anghymwys lle y cafodd ei ddefnyddio ar gyfer insiwleiddio pibellau, systemau gwresogi a bwyleri. Mae'r holl waith tynnu asbestos yn gymwys ar gyfer gwaith a wnaed ar 1 Hydref 2012 neu ar ôl hynny.

- **Systemau diogelwch a fforensig er mwyn atal troseddau**
  Roedd atgyweiriadau o ganlyniad i ladrad metel yn anghymwys yn flaenorol ar gyfer y cynllun, lle na thalwyd y treuliau hyn gan ddarparwr yswiriant. Bydd y rhain yn aros o fewn cwmpas y cynllun a bydd hawliadau ar osod systemau diogelwch a fforensig er mwyn atal troseddau (megis gosod arbenigol, camerâu diogelwch, technoleg marcio, larymau ar y to, paent gwrth-ddringo) hefyd yn gymwys ar gyfer gwaith a wneir ar 1 Hydref 2012 neu ar ôl hynny.

Trefniadau trawsnewidiol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer newidiadau yn mynd rhagddynt cyn 21 Mawrth 2012

O dan drefniadau trawsnewidiol, mae rhoi cyfradd sero ar TAW yn parhau i fod yn gymwys hyd nes 30 Medi 2015 ar gyfer rhai newidiadau penodol cymeradwy lle naill ai y gwnaed cais am 'ganiatâd perthnasol' cyn 21 Mawrth 2012 neu lluniwyd contract ysgrifenedig cyn 21 Mawrth 2012. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar Daflen Wybodaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 10/12. Cliciwch yma i gael manylion http://customs.hmrc.gov.uk/channelsPortalWebApp/channelsPortalWebApp.portal?_nfpb=true&_pageLabel=pageLibrary_PublicNoticesAndInfoSheets&propertyType=document&columns=1&id=HMCE_PROD1_032282

Lle bo'r gwaith a wnaed yn gymwys ar gyfer cyfradd sero o dan y rheolau trawsnewidiol ac mae eich adeiladwr wedi codi am TAW ar gam, ni ellir adennill y TAW drwy'r Cynllun Grantiau ar gyfer Addoldai Rhestredig. Yn lle hynny, dylai eich adeiladwr ddarllen hysbysiad cyhoeddus Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 700/45 ar Sut i gywiro camgymeriadau TAW ac addasu'r hawliadau. Cliciwch yma i gael manylion http://customs.hmrc.gov.uk/channelsPortalWebApp/channelsPortalWebApp.portal?_nfpb=true&_pageLabel=pageLibrary_PublicNoticesAndInfoSheets&propertyType=document&columns=1&id=HMCE_CL_000077

Mae rhai cymhorthau TAW a allai fod yn gymwys ar gyfer gwaith adeiladu a gyflenwir i addoldai rhestredig. Darperir enghreifftiau o'r rhain yn nodyn 3.5.

Rhestr Wirio Cymhwyster

Mae'r rhestr wirio isod yn rhestru'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer pa gostau sy'n gymwys o dan y cynllun, ac fe'i bwriedir i fod yn arweiniad yn unig. **Sylwer, nid yw hon yn rhestr drwyadl** ac mae'n bosibl y bydd meysydd rydym wedi'u hepgor. Bydd penderfyniadau terfynol yn ôl disgresiwn Yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Rydym yn cydnabod bod y derminoleg yn cyfateb yn bennaf i nodweddion addoldai Eglwys Lloegr, sy'n cyfrif am fwyafrif yr hawliadau ar y cynllun. Er hynny, **mae'r cynllun yn agored i addoldai rhestredig o bob enwad a chrefydd** (gweler Nodyn 1.2 a 1.3) a'i nod yw darparu triniaeth gyfatebol i addoldai rhestredig a ddefnyddir gan enwadau a chrefyddau eraill.

Pan fydd anfoneb yn ymwneud â gwaith cymwys a gwaith anghymwys, dylai'r ymgeisydd wneud dosraniad ynglŷn â'r costau hyn.

Os ydych yn amau o gwbl ynglŷn ag a yw eich hawliad yn gymwys ar gyfer grant, cysylltwch â'r Cynllun Grantiau ar gyfer Addoldai Rhestredig yn uniongyrchol ar 0845 013 6601.

GWARIANT CYMWYS

Adeiladau:
- Toeau
- Festrïoedd
- Canghellau
- Tyrau
- Cryptau
- Is-grofftydd
- Parapet
- Croeslath
- Ail-blastro
- Ail-bwyntio
- Gwaith carreg
- Pren (lle y mae'n perthyn i'r ffabrig)
- Nwyddau D r Glaw
- Cwteri
- Ffenestri
- Ail-wydro ffenestri
- Rhwyllau/Barrau ar Ffenestri
- Transeptau
- Uchafbwyntiau
- Rhonau
- Talcennau
- Draeniad (d r glaw, d r brwnt, draen Ffrengig, bwa ffos, neu ffos gerrig – oll o fewn y waliau terfyn)
- Lloriau a gorchuddiadau lloriau (dim ond lle y bônt yn barhaol ac o fewn ffabrig yr adeilad. Mae hyn yn cynnwys llawr, carreg, cerameg, marmor neu lawr solet).
- Fframiau clychau
- Ceiliogod y gwynt
- Meindyrau
- Cludyddion mellt
- Polion baneri (dim ond os ydynt ar yr addoldy)
- Croesau (dim ond os ydynt ar yr addoldy)

Mewnol
- Drysau
- Allorau a byrddau cymun (os ydynt wedi'u hadeiladau i mewn i'r ffabrig, neu wedi'u hymgorffori'n barhaol ynddo)
- Henebion (os ydynt wedi'u hadeiladau i mewn i'r ffabrig, neu wedi'u hymgorffori'n barhaol ynddo)
- Bedyddfeini (os ydynt wedi'u hadeiladau i mewn i'r ffabrig, neu wedi'u hymgorffori'n barhaol ynddo)
- Peintiadau wal / Murluniau
- Ceginau (mae hyn yn cynnwys gosod neu atgyweirio ceginau gosod a gwaith trydanol a phlymio perthynol. Mae eitemau sefydlog megis bwyleri d r a gwresogyddion d r ar y wal yn gymwys. Mae cypyrddau ond yn gymwys lle y bônt wedi'u cyflenwi'n arbennig fel rhan o gegin gosod ac y maent naill ai ynghlwm â ffabrig yr adeilad neu'n ffurfio cyfleuster cegin integredig (ac eithrio unrhyw declynnau/offer trydanol). Mae elfennau y gellir eu tynnu ymaith megis nwyddau gwyn, peiriannau golchi llestri, poptai, tegellau ac yrnau'n **anghymwys**).
- Systemau gwresogi wedi'u llwybro'n barhaus
- Clociau mewn tyredau (o 1 Hydref 2013)
- Clychau, a rhaffau clychau (o 1 Hydref, 2013)
- Fframiau clychau
- Organau pib (o 1 Hydref 2013)

Cyffredinol
- Triniaeth gwrth-lleithder
- Rheoli plâu – cyhyd â bod y pla wedi achosi difrod i ffabrig yr adeilad neu'n debygol o wneud hynny. Os na fydd yr anfoneb yn nodi math y pla, mae'n rhaid cynnwys hyn yn y cais.

GWARIANT CYMWYS

- Mae gwaith i atgyweirio difrod i ffabrig yr adeilad a achoswyd gan **ystlumod** a mesurau lliniaru i leihau neu atal difrod a achoswyd gan ystlumod hefyd yn gymwys.
- Mae atgyweirio difrod a achoswyd i'r ffabrig o ganlyniad i blâu neu **ladradau metel** (gan gynnwys ailosod metelau a ddygwyd) yn gymwys lle na chaiff y treuliau eu talu gan ddarparwr yswiriant.
- Tynnu asbestos ymaith
- Cloeon a cholfachau
- Grisiau
- Eisteddleoedd (mae clustogau pen-glin, clustogau a hesorau ond yn gymwys pan fyddant ynghlwm wrth yr eisteddle yn barhaol)
- Glanhau (os yw o ganlyniad i waith atgyweirio cynnal a chadw neu newid sy'n gymwys)
- Pethau rhagarweiniol (ar gyfer gwaith cymwys yn unig)
- Ffioedd proffesiynol sy'n perthyn i waith cymwys (o 1 Hydref 2013), gweler y tabl ar dudalen 5
- Pethau trydanol
- Gwaith plymio (gan gynnwys toiledau, basnau ymolchi a chyfleusterau cegin fel yr amlinellir uchod)
- Addurniadau megis cerfiadau neu waith carreg (lle y bo'n rhan o ffabrig yr adeilad)
- Gwaith ymchwiliol /arolygon (dim ond lle y'i gwnaed gan gontractwr sy'n gofrestredig ar gyfer TAW)
- Systemau diogelwch a fforensig er mwyn atal troseddau (larymau byrgleriaid, larymau ar y to, offer teledu cylch cyfyng, marciau fforensig, marcio ffisegol, gosod arbennig, goleuadau diogelwch)
- Canllawiau (er ei fod yn bosibl y bydd rhai'n gymwys ar gyfer cyfradd sero os y'u gosodir fel rhan o waith cymwys arall i'r adeilad ar gyfer pobl anabl – Gweler Nodyn 3.5 isod)
- Dolenni clyw
- Cynlluniau cynnal a chadw

GWARIANT ANGHYMWYS

Mewnol:
- Systemau clyweledol neu gydrannau systemau
- Allorau rhydd neu sefydlog /datodadwy
- Bedyddfeini rhydd neu sefydlog /datodadwy
- Henebion rhydd neu sefydlog /datodadwy
- Gorchuddion llawr datodadwy – carpedi, finyl, teils y gellir eu tynnu ymaith
- Dodrefn meddal addurniadol
- Eitemau sy'n cynnwys darn symudol o ddodrefn
- Ardaloedd yr adeilad a ddefnyddir ar gyfer llety (gweler y nodyn isod)

Allanol:
- Palmentydd
- Tynnu coed ymaith (tocio lle y bo angen i gadw ffabrig yr adeilad yn gymwys)
- Adeiladau a strwythurau ategol megis waliau terfyn, cerrig beddau a henebion mewn mynwentydd, waliau cadw, clwydi, gerddi, pyrth mynwent neu feysydd parcio
- Rheiliau (mae rheiliau mewnol sy'n rhan o ffabrig yr adeilad yn gymwys)

Cyffredinol
- Storio eitemau (gweler y nodyn ar waith galluogi isod)
- Deunyddiau yn unig (gweler nodyn 3.4)
- Glanhau cyffredinol
- Taliadau awdurdodau lleol
- Hysbysfyrddau
- Silffoedd
- Cypyrddau (mae cypyrddau ond yn gymwys pan fyddant wedi'u cyflenwi'n arbennig fel rhan o gegin gosod neu'n ffurfio cyfleuster cegin integredig a fydd yn aros yn ei le yn barhaol).
- Elfennau cegin symudadwy megis nwyddau gwyn, peiriannau golchi llestri, tegellau ac yrnau.
- Cawodydd a baddonau, ac eithrio, lle y cawsant eu gosod i gefnogi cyfleusterau ar gyfer pobl ddigartref/dibenion cymdeithasol a lles.
- Carpedi, teils symudadwy, dodrefn meddal addurnol
- Darnau gosod a gosodiadau neu addurno ar gyfer tenantiaid masnachol.

Rhagor o arweiniad ar gymhwyster

Ni ellir hawlio costau sy'n perthyn i **ddeunyddiau** oni bai eu bod yn cael eu cyflenwi fel rhan o waith cymwys gan gontractwr sy'n gofrestredig ar gyfer TAW. Ni ellir hawlio'r costau hyn oni bai eu bod yn cael eu hategu gan anfoneb berthynol y contractwr ac y byddent fel arfer yn cael eu rhestru o fewn anfoneb sydd hefyd yn cynnwys gwaith adeiladu. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd addoldai rhestredig sydd â'u hadrannau gwaith eu hunain yn gallu hawlio am gostau TAW ar gyfer deunyddiau a gafodd eu cyflenwi fel rhan o gyflenwad ehangach o waith atgyweirio, cynnal a chadw neu newidiadau gan eu hadran waith, cyhyd â bod hyn yn gofrestredig ar gyfer TAW neu mae'r contractwr sy'n gwneud y gwaith yn gofrestredig ar gyfer TAW. Mae costau yr eir iddynt ar gyfer deunyddiau mewn perthynas â gwaith a wnaed, e.e. gan aelodau'r gynulleidfa yn anghymwys, oni bai bod yr unigolyn hwnnw'n gofrestredig ar gyfer TAW a chynhyrchir anfoneb TAW.

Nid yw rhannau o'r adeilad **a ddefnyddir ar gyfer llety yn gymwys** o dan y cynllun. Yr unig eithriad i hyn yw pan gaiff y llety ei ddarparu ar gyfer ei ddefnyddio dros dro yn unig fel lloches i bobl ddigartref neu at ddibenion cymdeithasol/lles tebyg.

Lle y caiff rhannau o'r adeilad rhestredig eu **haddasu i ddarparu lle ar gyfer tenantiaid masnachol**, bydd y cynllun yn talu am newid yr adeilad a darparu gwasanaethau (trydan, gwaith plymio), ond nid cost unrhyw ddodrefnu sy'n benodol i'r tenant masnachol.

Gwaith galluogi

Rydym yn disgwyl y caiff deunyddiau a darnau hanesyddol eu cadw a'u hailddefnyddio lle bynnag y bo'n bosibl. Lle roedd angen symud gosodiadau er mwyn galluogi ymgymryd â gwaith cymwys yn unig, byddwn ond yn talu i adfer y lefel leiaf o osod sy'n ofynnol i wneud yr atgyweiriadau cymwys i'r ffabrig.

Pan gaiff ei ystyried yn fwyaf cost effeithiol i dynnu gosodiadau ymaith yn gyfan gwbl cyn i waith ar ffabrig ddechrau, dylech ddarparu gwiriad proffesiynol o hyn cyn i'r gwaith ddechrau er mwyn gwirio hyd y cymhwyster. Ni fyddwn yn cynnig grant lle na ddilynir y camau hyn.

Nid yw gwaith ar ddodrefn, silffoedd, hysbysfyrddau ac eitemau datodadwy yn gymwys.

Y Broses 4 Cam

Bydd y broses 4 cam yn eich cynorthwyo i ddeall a ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun neu beidio. Os gallwch ateb "ie" i'r tri chwestiwn isod, dylech chi lenwi'r ffurflen gais:

- A yw'n adeilad rhestredig lle yr unig ddefnydd neu'r prif ddefnydd yw fel man addoli crefyddol cyhoeddus?
- A yw ar gael i'r cyhoedd ar gyfer o leiaf 6 gwasanaeth crefyddol y flwyddyn ac a gyhoeddir yr argaeledd ac nid yw drwy wahoddiad yn unig?
- A yw'r gwaith yn gymwys?

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, siaradwch ag un o'n cysylltyddion ar **0845 013 6601.** ***Codir am alwadau ar y gyfradd leol.***

Cam 1 – Addoldy



Nodyn 1.1: 'yn unig neu'n bennaf'

Rhaid i'r adeilad gael ei ddefnyddio'n unig neu'n bennaf fel addoldy cyhoeddus.

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw neuaddau eglwys yn bodloni'r maen prawf o gael eu defnyddio'n unigol neu'n bennaf ar gyfer addoli crefyddol cyhoeddus. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r lle fel man addoli cyhoeddus na chyfanswm yr holl ddefnyddiau eraill. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i neuadd fod yn adeilad rhestredig yn ei rinwedd ei hun.

Mewn achosion pan fydd neuadd yn cael ei defnyddio'n ***bennaf*** fel man addoli crefyddol cyhoeddus, efallai y byddwn yn talu rhai costau, ond dim ond y rhai sy'n codi mewn perthynas â defnydd fel man addoli crefyddol. Felly, bydd angen i'r holl anfonebau gael eu dosrannu'n unol â hynny

Nid yw hyn yn cynnwys ***adeiladau rhestredig atodol unigol neu strwythurau ar wahân*** oni bai eu bod yn bodloni'r un amodau â'r prif adeilad, h.y. man addoli crefyddol cyhoeddus yw eu hunig ddefnydd neu eu prif ddefnydd, neu y cânt eu cysylltu'n barhaol â strwythur yr adeilad rhestredig, neu maent yn rhan ohono.

Nodyn 1.2: ‘addoli crefyddol cyhoeddus’

Bwriad y cynllun yw cynorthwyo gyda gwaith i fannau addoli lle byddai’r costau’n gyfrifoldeb cynulleidfa leol neu enwad neu grŵp ffydd cydnabyddedig.

Nid yw ***capeli preifat, a chapeli mewn ysgolion, colegau, prifysgolion, ysbytai, carchardai ac elusendai*** yn gymwys o dan y cynllun oni bai bod **POB UN** o’r canlynol yn gymwys:

- Mae’r adeilad ar gael i’r cyhoedd am o leiaf 6 gwasanaeth crefyddol y flwyddyn, ac mae’r argaeledd hwnnw’n cael ei gyhoeddi ac nid yw trwy wahoddiad yn unig;
- Unig ddiben neu brif ddiben yr adeilad yw addoldy crefyddol cyhoeddus;
- Cyfrifoldeb cynulleidfa leol neu grŵp ffydd cydnabyddedig yw costau’r gwaith.

Nid yw rhannau o’r adeilad a ddefnyddir ar gyfer llety yn gymwys o dan y cynllun. Yr unig eithriad i hyn yw pan ddarperir y llety ar gyfer ei ddefnyddio dros dro yn unig fel lloches ar gyfer pobl ddigartref neu at ddibenion cymdeithasol/lles tebyg. Pan fydd elfen yn cael ei defnyddio ar gyfer llety anghymwys, mae’n rhaid gwneud canran y lle a ddyrennir ar gyfer y diben hwn yn glir ar y cais.

NI chynhwysir adeilad a roddir ar gael i’w ddefnyddio gan weinidog neu grefydd yn llwyr neu’n bennaf fel preswylfa er mwyn cyflawni dyletswyddau ei swydd.

Mae’r cynllun yn cwmpasu sefydliadau crefyddol a gyfansoddir yn ffurfiol yn unig. Gofynnir i chi ardystio bod gan y sefydliad crefyddol a wasanaethir gan yr addoldy:

- statws elusennol, neu mae’n cael ei gydnabod yn elusen gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- ymwneir â hi gan gyngor eglwys plwyfol neu’r cyfwerth; neu
- os nad yw unrhyw un o’r rhain yn gymwys, gofynnir i chi ddarparu copi o’ch cyfansoddiad.

Nodyn 1.3: ‘chwe gwaith y flwyddyn’

Mae’n rhaid defnyddio’r adeilad fel ***man addoli cyhoeddus*** o leiaf ***chwe gwaith y flwyddyn***. Gofynnir i chi ardystio bod hyn yn wir, ac mae’n bosibl y gwneir rhagor o ymholiadau.

Nodyn 1.4: ‘mynachdai, lleiandai a sefydliadau penodol sy’n gofalu am eglwysi segur’

Nid yw’n ofynnol i rai addoldai penodol ddangos y cânt eu defnyddio ar gyfer addoli crefyddol cyhoeddus o leiaf chwe gwaith y flwyddyn. Mae’r rhain yn addoldai a ddefnyddir gan fynachdai, lleiandai a sefydliadau tebyg, ac eglwysi a berchenogir neu a ymddiriedir mewn rhai sefydliadau penodol sy’n gofalu am ***addoldai segur***. Dyma’r Ymddiriedolaeth Capeli Hanesyddol, Cyfeillion Eglwysi Digyfaill, Ymddiriedolaeth Eglwysi Segur Yr Alban, Ymddiriedolaeth Cadw Eglwysi ac Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru.

O 1 Hydref 2013, bydd yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried ceisiadau gan grwpiau crefyddol neu elusennol eraill sy’n gofalu am addoldai segur. Byddai angen i’r grwpiau hyn ddangos mai eu prif ddiben yw cadw, atgyweirio a chynnal a chadw addoldai segur nad ydynt mewn perchnogaeth breifat.

Ar y cychwyn cyntaf, dylid gwneud cais i’r Cynllun Grantiau ar gyfer Addoldai Rhestredig a dylai gynnwys rhif yr elusen lle bo’n gymwys, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol i ddangos sut y bodlonir y meini prawf.

Ar gyfer ***mynachdai a lleiandai, a sefydliadau tebyg o ffydd arall***, dim ond elfen yr adeilad a ddefnyddir ar gyfer addoli crefyddol sy’n gymwys. Nid yw mannau eraill yn yr adeilad (e.e. llety, ardal fwyta ayyb.) yn gymwys. Os yw gwaith yn ymwneud ag ardaloedd cymwys ac anghymwys, mae’n rhaid datgan y rhaniad hwn ar y cais.

Cam 2 – Adeilad Rhestredig



Nodyn 2.1: 'adeilad rhestredig'

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, mae'n rhaid bod eich addoldy wedi'i restru gyda'r asiantaeth restru statudol. berthnasol (tL WRULF.(QJODQG, CADW, Historic Scotland neu Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon), a rhaid. i'ch cais ymwneud â gwaith a wnaed tra bod y rhestriad mewn grym.

Nid yw rhestriadau a wneir gan gynghorau lleol yn dderbyniol yn y cynllun. Mae'n rhaid i'r rhestriad gael ei gymeradwyo gan yr asiantaeth restru statudol berthnasol.

Os anfonir eich cais yn ôl atoch oherwydd na allwn adnabod rhestriad eich adeilad, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad yw'ch eglwys wedi'i rhestru – gall olygu bod y manylion a gofrestrwyd ar y pryd ychydig yn wahanol i'r rhai a nodir ar y ffurflen gais. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais ynghyd â'r gwaith papur i ddangos eich rhestriad gyda'r asiantaeth restru statudol berthnasol.

Bydd rhan o'n proses gymeradwyo'n cynnwys gwirio yn erbyn y cofnodion statudol bod eich adeilad wedi'i restru'n ffurfiol. Gellir rhestru adeiladau am eu pwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol, cysylltiad hanesyddol agos â phobl neu ddigwyddiadau pwysig yn genedlaethol, neu eu gwerth fel rhan o grŵp, gan yr awdurdod rhestru yn eich gwlad. Mae oedran a phrinder yn ystyriaethau perthnasol, ond po hynaf yr adeilad, tebycaf yw y bydd wedi ei restru. Nid yw adeiladau sy'n llai na deng mlynedd ar hugain oed yn cael eu hystyried ar gyfer eu rhestru fel arfer. Gwelir y manylion am sut i restru adeilad yn Atodiad A.

Mae English Heritage yn rheoli cronfa ddata Rhestr Treftadaeth Genedlaethol Lloegr ac mae'n cynnig gwybodaeth gyfredol am asedau treftadaeth â dynodiad cenedlaethol yn Lloegr. Gallwch ddefnyddio'r gronfa ddata i weld a yw adeilad yn Lloegr wedi'i restru

http://www.english-heritage.org.uk/professional/protection/process/national-heritage-list-for-england/

Mae Historic Scotland hefyd yn rheoli cronfa ddata i roi gwybodaeth am adeiladau rhestredig yn Yr Alban. Gallwch ddefnyddio'r gronfa ddata a ganlyn i weld a yw adeilad yn Yr Alban wedi'i restru:

http://www.historic-scotland.gov.uk/index/heritage/historicandlistedbuildings.htm

Gallwch chwilio am adeiladau rhestredig yng Ngogledd Iwerddon, gan ddefnyddio'r gronfa ddata a reolir gan Adran yr Amgylchedd, Gogledd Iwerddon:

http://www.doeni.gov.uk/niea/other-index/content-databases/content-databases-build.htm

Cam 3 – Gwariant Cymwys



Nodyn 3.1: Gwerth isaf y gwaith sy'n gymwys ar gyfer y cynllun

Gwerth lleiafswm yr anfonebau (ac eithrio TAW) ar gyfer unrhyw un hawliad o dan y cynllun yw £1,000. Mae'n bosibl y bydd cais yn cynnwys nifer o anfonebau llai, ond mae'n rhaid i bob hawliad gyfeirio at waith sy'n gymwys o dan y cynllun a gyda'i gilydd rhaid iddynt gynhyrchu gwerthoedd anfonebau cyfunol nad ydynt yn llai na £1000 ac eithrio TAW.

O 1 Hydref 2013, **bydd pob addoldy rhestredig yn cael cyflwyno un hawliad yngl n â gwaith sydd â gwerth o lai na £1000, ond yn fwy na £500 (ac eithrio'r TAW a delir)** mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis. Cafodd y newid hwn ei gyflwyno er mwyn galluogi addoldai sy'n ymgymryd â gwaith llai i hawlio o dan y cynllun.

Nodyn 3.2: Anfonebau yn h n na 12 mis oed

Ni fydd anfonebau'n cael eu derbyn mwyach lle bônt dros 12 mis oed o'u dyddiad cyflwyno i ddyddiad derbyn y cais am grant.

Nodyn 3.3: 'atgyweirio, cynnal a chadw neu addasu'

Dim ond gwaith a wneir i atgyweirio, cynnal a chadw neu addasu ffabrig adeilad rhestredig presennol sy'n gymwys.

Mae'r ffabrig yn cynnwys ei sylfeini, waliau, toeau, nwyddau dŵr glaw, draeniau, arwynebau mewnol, lloriau, grisiau, pen grisiau, dargludyddion mellt a'r holl ddrysau a ffenestri.
Cyflwynir rhestr o waith cymwys ac anghymwys yn adran Crynodeb y ddogfen hon.

Addasiadau cymeradwy

Mae'n bosibl y bydd addasiadau neu waith i ffabrig addoldy rhestredig yn gofyn am ganiatâd perthnasol gan yr awdurdodau priodol. Yn achos adeilad eglwysig y mae adran 60 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 neu Adran 54 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Yr Alban) 1997 yn berthnasol iddo, mae caniatâd perthnasol yn golygu caniatâd ar gyfer yr addasiadau cymeradwy gan gorff cymwys sydd â'r awdurdod i gymeradwyo addasiadau i adeiladau o'r fath.

Nid oes angen cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o'r gymeradwyaeth hon ym mhob hawliad. Fodd bynnag, gofynnir i ymgeiswyr ddatgan lle bo angen caniatâd am waith addasu, eu bod wedi cael y gymeradwyaeth hon cyn cychwyn ar y gwaith. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr roi tystiolaeth ysgrifenedig o gymeradwyaeth, neu i ddangos pam nad oedd angen caniatâd, os caiff eu hawliad ei ddethol ar gyfer archwiliad ar ôl talu.

Os yw ymgeiswyr yn ansicr ynghylch p'un a oes angen caniatâd ar gyfer gwaith addasu, dylent gysylltu â chorff cynghorol eu henwad (yn achos enwadau lle mae'r Eithriad Eglwysig yn weithredol) neu eu Hawdurdod Lleol.

Nodyn 3.4: 'cofrestredig ar gyfer TAW'

Er mwyn hawlio o dan y cynllun, mae'n rhaid i waith cymwys gael ei wneud gan gontractwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Ni ddylai contractwr nad yw wedi'i gofrestru ar gyfer TAW godi TAW arnoch am wneud gwaith i chi.

Dylech sicrhau bod y contractwr wedi'i gofrestru at ddibenion TAW trwy ofyn am ei rif cofrestru TAW, y mae'n rhaid ei ddangos ar yr anfoneb. Cynhelir gwiriadau archwilio ar ôl talu ar ganran o hawliadau. Os cewch eich dewis ar gyfer un o'r gwiriadau hyn, dylech fod yn ymwybodol y byddwn yn cysylltu â'r holl gontractwyr rydych wedi hawlio TAW oddi wrthynt ar eich cais, er mwyn cadarnhau'r manylion gwahanol.

Gall addoldai sydd wedi eu cofrestru at ddibenion TAW am eu bod yn codi tâl mynediad neu'n cynnal gweithgareddau busnes, adennill cyfradd o'r TAW maent yn mynd iddi drwy Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Y lefel o TAW anadferadwy yn achos yr adeiladau hyn fydd yr uchafswm sy'n daladwy o dan y cynllun. Er enghraifft, os dosberthir 40% o'r addoldy yn eiddo masnachol, a bod modd iddo adennill 40% o'r costau TAW drwy Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, dim ond y 60% o'r costau TAW sy'n weddill y byddai modd eu hadennill drwy Gynllun Grant Addoldai Rhestredig, os ydynt yn ymwneud â gwaith cymwys.

Mae rhagor o fanylion am ostyngiadau TAW sydd ar gael i adeiladau rhestredig wedi'u hamlinellu yn Nodyn 3.5 isod.

Nodyn 3.5: Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac arweiniad cyffredinol ar gyfraddau sero TAW a allai fod yn berthnasol i waith adeiladu ar addoldai rhestredig

Ni fydd cyfradd safonol yn berthnasol yn achos yr holl waith adeiladu a wneir ar addoldy rhestredig. Mae gostyngiadau TAW eraill sy'n berthnasol yn ehangach i adeiladau a ddefnyddir gan elusennau neu adeiladau a ddefnyddir at ddiben elusennol perthnasol (defnydd nad yw'n ymwneud â busnes gan elusen neu fel neuadd bentref neu ei thebyg). Mae'r rhain y cynnwys:

Gostyngiadau Cyfradd Sero

(i) Cyflenwi gwasanaeth adeiladu esgynfeydd ac ehangu pyrth a chynteddau mewn unrhyw adeilad ar gyfer elusen at ddiben hwyluso mynediad a symudiad unigolyn anabl (gweler Hysbysiad Cyhoeddus 701/7 "Gostyngiadau TAW ar gyfer Pobl Anabl" Pennod 6).

(ii) Cyflenwi gwasanaeth ar gyfer elusen yn cynnwys darparu, ymestyn neu addasu ystafell ymolchi neu doiled i unigolyn anabl ei defnyddio mewn adeilad a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion elusennol "Gostyngiadau TAW ar gyfer Pobl Anabl" (gweler Hysbysiad Cyhoeddus 701/7 "Cymhorthau TAW ar gyfer Pobl Anabl".

(iii) Adeiladu a gwerthu adeilad newydd i'w ddefnyddio at ddiben elusennol perthnasol yn unig (gweler Hysbysiad Cyhoeddus 708 Adeiladau ac Adeiladu Pennod 3) Mae adeilad yn newydd:-

- lle nad oedd unrhyw adeilad yn ardal yr adeiladu yn flaenorol
- lle y cafodd yr adeilad blaenorol ei ddymchwel i lefel y tir
- lle mai'r cwbl sydd ar ôl o'r adeilad blaenorol yw ffasâd unigol neu os yw ar gornel, ffasâd dwbl. Yn y ddau achos, mae'n rhaid bod cadw'r ffasadau yn un o amodau'r caniatâd cynllunio.

(iv) Mewn rhai achosion, caiff adeiladu ***rhandy newydd*** i addoldy rhestredig gyfradd sero at ddibenion TAW. (Mae rhandy, at ddiben penderfynu ar atebolrwydd TAW ynghlwm ag adeiladau). Mae cyfradd sero yn digwydd lle y bodlonir yr amodau canlynol:

- bwriedir defnyddio'r rhandy at ddefnydd elusennol perthnasol yn unig
- mae modd i'r rhandy weithredu'n annibynnol ar yr adeilad presennol
- nid yw prif fynedfa'r rhandy drwy'r adeilad neu'r cyfdro presennol.

Mewn achosion lle nad yw'r hyn a adeiladwyd yn bodloni'r amodau uchod, ni chaiff gyfradd sero at ddibenion TAW ac mae'n debygol o fod yn helaethiad, neu'n estyniad i'r adeilad. Mae gwaith o'r fath yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer Cynllun Grant Addoldai Rhestredig.

Gostyngiad Cyfradd Is

Hyd at 31 Gorffennaf 2013, roedd gosod rhai deunyddiau arbed ynni yn ddarostyngedig i gyfradd is o 5% pan gânt eu gosod mewn adeiladau a ddefnyddir at ddiben elusennol perthnasol. Gweler Hysbysiad Cyhoeddus 708/6 "Deunyddiau Arbed Ynni" Pennod 2. Tynnwyd y cymorth hwn yn ôl o 1 Awst 2013.

Costau TAW o waith sy'n perthyn i gyflenwadau trethadwy

Nid yw costau TAW yr eir iddynt mewn gwaith sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflenwadau trethadwy yn gymwys ar gyfer y cynllun a dylid adennill unrhyw gostau o'r fath drwy'r system TAW. Gallai hyn gynnwys gwaith i siopau a chaffis. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar:
http://www.hmrc.gov.uk/vat/start/register/when-to-register.htm

Mae Hysbysiadau Cyhoeddus ar gael yn adran Llyfrgell gwefan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi www.hmrc.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau mewn perthynas â chodi TAW ar waith i addoldai rhestredig, dylech gysylltu â Llinell Gymorth Elusennau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sydd ar agor o ddydd Llun hyd at ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus) o 8.00 hyd at 5.00 pm, ar 0845 302 0203. Dylid anfon ymholiadau ysgrifenedig at:
Elusennau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
St. Johns House
Merton Road
Liverpool
L75 1BB

Nodyn 3.6: 'Anfoneb TAW'

Gyda'ch cais, mae'n rhaid cyflwyno anfoneb wreiddiol neu anfoneb wedi'i llungopïo neu ei sganio oddi wrth y contractwr sy'n ardystio bod TAW wedi'i thalu. Lle y cyflwynir anfonebau sydd wedi'u llungopïo neu eu sganio, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd lofnodi cadarnhad ar y ffurflen gais ei fod yn gopi gwir ac y dangosir yr un gwreiddiol os caiff yr hawliad ei ddethol ar gyfer ei archwilio. **Ni fydd hawliadau'n cael eu talu heb y dystiolaeth ddogfennol hon.**

Ni fydd anfonebau'n cael eu derbyn mwyach lle bônt dros 12 mis oed o'u dyddiad cyflwyno i ddyddiad derbyn y cais am grant. Rhaid i bob anfoneb ddangos rhif cofrestru TAW contractwr, a'r dyddiad cyflwyno. Os nad yw'r manylion hyn wedi'u nodi, caiff eich hawliad ei wrthod.

Dim ond gwaith y codwyd TAW arno yn gywir ac a dalwyd sy'n gymwys. Lle bo cais yn cynnwys anfoneb sy'n berthnasol i adeiladau neu waith cymwys neu rai nad ydynt yn gymwys, rhaid datgan y rhaniad naill ai yn yr anfoneb neu yng ngholofn 4 cwestiwn 20.

Lleiafswm gwerth gwaith sy'n gymwys ar gyfer unrhyw hawliad unigol yw £1,000 (heb gynnwys TAW). Gall cais gynnwys nifer o anfonebau llai, ond rhaid i bob hawliad fod ar gyfer gwaith sy'n gymwys o dan y cynllun a rhaid iddynt ffurfio cyfanswm hawliad o nid llai na £1,000 net, ac eithrio'r TAW a dalwyd (gweler nodyn 3.1).

O 1 Hydref 2013, **bydd pob addoldy rhestredig hefyd yn cael cyflwyno un hawliad gan ddefnyddio anfonebau o werth llai na £1000, ond yn fwy na £500 (ac eithrio'r TAW a dalwyd)** mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis.

Os ydych yn gwneud cais ar ran nifer o adeiladau gwahanol, dylech fod yn ymwybodol bod rhif adnabod unigryw gan bob addoldy, felly at ddibenion cofnodi ac adrodd, rhaid cwblhau cais ar wahân ar gyfer pob addoldy unigol.

Nodyn 3.7: Anfonebau Cadw

Caiff anfonebau cadw (anfonebau ar gyfer taliadau terfynol lle y cafodd arian ei gadw tan gyfnod y cytunwyd arno ar ôl cwblhau'r gwaith) eu cynnwys gyda gwariant cymwys arall er mwyn sicrhau y cyflawnir gwerth lleiafswm yr hawliad. Yn unol â'r arfer, sicrhewch y cyflwynir anfonebau cyn pen 12 mis o ddyddiad cyflwyno'r anfoneb.

Wrth gyflwyno hawliad sy'n perthyn i anfoneb cadw, dylech ddarparu anfonebau neu dystiolaeth ddogfennol arall bod yr anfoneb cadw'n perthyn i waith adeiladu a oedd yn gymwys ar gyfer hawliadau o dan y cynllun grant ar gyfer Addoldai Rhestredig ar yr adeg y gwnaed y gwaith.

Nodyn 3.8: Yswiriant

Ni fydd y cynllun yn talu am hawliadau lle bo cost y TAW wedi cael ei thalu gan gwmni yswiriant ac na fydd yn talu grantiau ar unrhyw warged sy'n daladwy gan yr hawliwr. Lle nad yw cwmni yswiriant yn talu costau TAW, bydd yn ofynnol i hawlwyr ddarparu dogfennaeth i ardystio hyn.

Os ydych yn hawlio costau TAW lle y cafodd rhai costau eu talu gan yswiriant, dylech sicrhau nad yw anfoneb sy'n ategu'r hawliad yn cael ei gyfeirio i'r cwmni yswiriant, ond i'r addoldy, neu gyswllt perthnasol o fewn yr addoldy.

Os nad oes yswiriant gennych, gellir hawlio swm cyfan y TAW drwy'r cynllun hwn.

Nodyn 3.9: Dyfarniad grant blaenorol

Os yw'r gwaith a wnaed wedi bod yn destun dyfarniad grant blaenorol ar gyfer costau gwaith adeiladu, gan gynnwys TAW, gan English Heritage, Historic Scotland, Cadw, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon neu ddosbarthwr neu gorff rhoddi grantiau'r Loteri arall, bydd yn ofynnol i addoldai dalu cyfran berthnasol y grant a dderbynnir o'r Cynllun Grant ar gyfer Addoldai Rhestredig yn ôl i'r asiantaethau statudol (uchod), oni bai y cafodd y grant gwreiddiol ei addasu eisoes er mwyn ystyried y Cynllun Grant ar gyfer Addoldai Rhestredig.

Fel llofnodwr, gofynnir i chi ardystio y bydd yr addoldy'n talu'r ad-daliadau sy'n ddyledus. Caiff manylion y ceisiadau eu darparu i'r asiantaethau dyfarnu grantiau perthnasol.

Nodyn 3.10: Contractau Gwaith

Wrth gyflwyno cais cyntaf ar gyfer contract gwaith, mae'n rhaid ategu hyn gan y ddogfen tendro gysylltiedig (gellir cyfeirio at hyn hefyd fel 'Manyleb Gwaith wedi'i phrisio' neu 'Fil Meintiau') Dylai'r ddogfen hon roi manylion am y gwaith sy'n cael ei wneud ynghyd â gwerthoedd cysylltiedig. Dylech fod yn ymwybodol, lle na chyflwynir y ddogfen hon, neu nad yw'n darparu'r manylion sy'n ofynnol, caiff eich hawliad ei ddychwelyd ar gyfer camau pellach.

Bydd y cynllun grant yn adolygu'r ddogfennaeth ategol ac yn cyfrifo canran cymwys y contract yn gyffredinol. Wedyn, caiff y canran hwn ei gymhwyso i unrhyw ffioedd proffesiynol cymwys perthnasol.

Cam 4 – Cwblhau'r Cais

Dylech ond gwblhau'r ffurflen gais os ydych wedi dilyn y broses 4 cam a esbonnir uchod ac yn credu eich bod yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Dylech lenwi'r ffurflen gais yn glir a sicrhau y caiff pob adran ei llenwi. Bydd hyn yn helpu i atal oedi o ran prosesu a thalu eich hawliad. Anfonwch eich ffurflen gyflawn at Topmark (LPOW), 160 Bath Street, Glasgow, G2 4TB.
Rydym yn argymell yn argymell yn gryf eich bod yn cael prawf o bostio, ac yn cadw copi o'ch cais a phob dogfen ategol.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, siaradwch ag un o'n cysylltyddion ar 0845 013 6601. ***Codir am hyn fel ar gyfer galwad leol***

Adran 1: Manylion Cyswllt	**Cyfarwyddiadau**
Enw/cysegriad yr addoldy rhestredig	Rhowch enw llawn yr addoldy rhestredig y mae'r hawliad yn perthyn iddo
Cyfeiriad yr addoldy rhestredig	Rhowch gyfeiriad yr addoldy rhestredig y mae'r hawliad yn perthyn iddo. **Sylwer bod rhaid rhoi'r sir ym mhob achos**
Enw'r awdurdod lleol/cyngor y mae'r addoldy wedi'i leoli ynddo	Rhowch enw'r awdurdod lleol neu'r cyngor y mae'r addoldy wedi'i leoli ynddo. Yng Nghymru a'r Alban yr awdurdod unedol fydd hwn. Yng Ngogledd Iwerddon y Cyngor Dosbarth fydd hwn. Yn Lloegr, naill ai Bwrdeistref Llundain, y Fwrdeistref Fetropolitan, y Cyngor Dosbarth neu'r Cyngor Unedol fydd hwn
Crefydd neu Enwad	Rhowch y grefydd ac /neu enwad a wasanaethir gan yr addoldy
Enw'r unigolyn/ sefydliad sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol ar gyfer y gwaith y mae'r cais yn perthyn iddo.	Efallai mai chi yw hwn neu gall fod yn gorff arall
Manylion gohebwyr	Rhowch enw pwy bynnag a fyddai yn y sefyllfa orau i ymdrin ag ymholiadau, os bydd angen. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y bydd yr unigolion yn derbyn yr holl ohebiaeth (gan gynnwys hysbysiad am daliadau ac anfonebau a ddychwelir). **Ni all gweinyddwyr y grant siarad ag unrhyw unigolyn arall yngl n â datrys ymholiadau**
Adran 2: Man Addoli	**Cyfarwyddiadau**
6	Gweler Nodyn 1.1 yn y nodiadau arweiniad
7	Gweler Nodyn 1.3 yn y nodiadau arweiniad
8	Gweler Nodyn 1.4 yn y nodiadau arweiniad
9	Gweler Nodyn 1.2 yn y nodiadau arweiniad

Adran 3: Adeilad Rhestredig	Cyfarwyddiadau
10 Graddfa neu gategori rhestru	Mae gan adeiladau rhestredig nifer o raddfeydd neu gategorïau. Rhowch y raddfa neu gategori rhestru os ydych yn ei wybod
Adran 4: Gwariant Cymwys	**Cyfarwyddiadau**
11	Gweler Cam 3 yn y nodiadau arweiniad
12 Disgrifiad o'r gwaith	Sylwer, efallai y bydd angen i ni wirio bod y gwaith yn perthyn i ffabrig yr adeilad fel yr esbonnir yng Ngham 3 y nodiadau arweiniad. Dylech sicrhau bod y ddogfennaeth ategol a amgaeir gennych yn ein galluogi i wneud hyn
13	Gweler Nodyn 3.4 yn y nodiadau arweiniad
14	Gweler Nodyn 3.4 yn y nodiadau arweiniad
15 Cyfradd net TAW effeithiol	Bydd angen i ni weld tystiolaeth o unrhyw ddull dosrannu busnes/dull dosrannu nad yw'n ymwneud â busnes a gytunir gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Fel arfer, bydd hyn ar ffurf llythyr gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi a dylid ei amgáu gyda'ch cais
16	Fel yr uchod
17	Gweler Nodyn 3.9 yn y nodiadau arweiniad
21	Gweler Nodyn 3.3 yn y nodiadau arweiniad
22	Gweler Nodyn 3.3 yn y nodiadau arweiniad

Adran 5: Eich hawliad

Dangosir enghreifftiau o hawliadau isod:

Mae'r gwaith ar yr anfoneb yn **gwbl gymwys**

Cyf. Anfoneb	Cyfanswm Net ①	Cyfradd TAW ②	% o'r Gwaith Cymwys a Adenillir ③	Cyfanswm Gwerth y Grant a Hawliwyd ④
ABC123	£150.00	20%	**100**%	£30.00

① – Swm cymwys yr anfoneb cyn ychwanegu TAW.
② – Cyfradd wirioneddol TAW a godwyd (20% fydd y gyfradd TAW gyfredol yn y mwyafrif o achosion).
③ – Y gwaith a nodir ar yr anfoneb rydych yn ei ystyried yn gymwys. (Mae'r enghraifft yn gwbl gymwys, ac felly 100% yw hwn). Dim ond yn rhannol gymwys y mae'r enghraifft isod, felly mae hyn yn dangos canran is).
④ – Yr arian yr ydych yn gofyn amdano gan y cynllun grant mewn perthynas â'r anfoneb benodedig.

Mae'r gwaith ar yr anfoneb yn **rhannol gymwys** yn unig:

Cyf. Anfoneb	Cyfanswm Net ①	Cyfradd TAW ②	% o'r Gwaith Cymwys a Adenillir ③	Cyfanswm Gwerth y Grant a Hawliwyd ④
ABC123	£150.00	20%	**75**%	£22.50

Lleiafswm gwerth gwaith sy'n gymwys ar gyfer unrhyw hawliad unigol yw £1,000 (heb gynnwys TAW), gweler nodyn 3.1 i weld eithriad i hyn. Os nad ydych wedi ymgymryd â gwaith o'r gwerth hwn, cadwch eich holl ddogfennaeth a chyflwynwch y cais pan fydd gennych yr anfonebau cymwys ychwanegol, a fydd yn dod â'r cyfanswm i'r isafswm sy'n ofynnol. Sylwer, ni ellir derbyn anfonebau lle y bônt yn hŷn na 12 mis oed o'r dyddiad cyhoeddi i'r dyddiad y derbynnir y cais am y grant.

Os yw eich hawliad yn cynnwys addasiadau (naill ai fel rhan o'r cais hwn neu fel rhan o gontract gwaith), efallai y bydd yn ofynnol i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r caniatâd cynllunio os cewch eich dewis ar gyfer archwiliad ar ôl talu.

Adran 6: Eich manylion talu

Caiff taliadau ond eu gwneud i gyfrifon banc/cymdeithas adeiladu a awdurdodwyd ar gyfer defnydd swyddogol gan yr addoldy y mae'r cais yn perthyn iddo.

Adran 7: Datganiad

Dylai hwn gael ei lofnodi gan unigolyn yn y sefydliad sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol ar gyfer yr addoldy.

Sicrhewch y rhoddir ticiau yn erbyn pob datganiad, oherwydd caiff ceisiadau anghyflawn eu dychwelyd.

CWESTIYNAU CYFFREDIN

YMHOLIADAU RHESTRU

- **Nid wyf yn gwybod a yw'r addoldy'n rhestredig. Sut gallaf gael gwybod?**
  Cysylltwch naill ai ag Adran Cynllunio eich Awdurdod Lleol, neu â'r asiantaeth rhestru statudol berthnasol (i gael manylion cyswllt, cyfeiriwch at Atodiad A ar glawr cefn y daflen hon). Ni fydd atgyweiriadau i adeiladau nad ydynt yn rhestredig yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn. Fodd bynnag, os ydych yn ystyried bod angen rhestru'r adeilad, dylech ystyried cyflwyno cais i'r asiantaeth rhestru statudol berthnasol.

- **Os trefnaf i'm hadeilad gael ei restru nawr, a allaf wneud cais am waith a wnaed cyn iddo gael ei restru?**
  Na allwch. Ni chaiff hawliadau eu derbyn ar gyfer gwaith a wneir ar adeiladau nad ydynt yn rhestredig ar yr adeg honno, ni waeth a ydynt yn cael eu rhestru wedyn yn y dyfodol. Caiff hawliadau ond eu hystyried ar gyfer atgyweiriadau i adeiladau sy'n rhestredig ar yr adeg y gwneir y gwaith.

- **Nid wyf yn gwybod fy ngraddfa neu gategori rhestru. A oes ots?**
  Nac ydy, rydym ond yn defnyddio'r wybodaeth hon i groesgyfeirio eich manylion ar ein cofrestr o adeiladau rhestredig. Gellir gadael C10 yn wag – ni fydd hyn yn oedi prosesu eich cais.

YMHOLIAD AM ANFONEBAU /TAW

- **A allaf wneud cais os ydwyf wedi colli fy anfonebau TAW?**
  Gallwch wneud cais gyda chopi o'r anfoneb wreiddiol; fodd bynnag, efallai y bydd yn ofynnol i chi ddarparu copi arall wedi'i farcio fel copi gwir ac ardystiedig, wedi'i lofnodi a'i dyddio gan y contractwr os caiff eich hawliad ei ddewis ar gyfer archwiliad ar ôl talu.

- **A allaf wneud cais os nad ydwyf wedi talu fy anfoneb TAW?**
  Na allwch. Mae'n rhaid eich bod wedi talu eich anfoneb TAW cyn gwneud cais am grant o dan y cynllun hwn.

- **A allaf gyflwyno fy holl anfonebau i'r gweithredwr er mwyn iddynt benderfynu beth sy'n gymwys?**
  Na allwch. Mae'n hanfodol eich bod yn darllen yr Arweiniad i'r Cynllun Grantiau ar gyfer Addoldai Rhestredig ac yn cyflwyno anfonebau sy'n perthyn i waith sy'n gymwys ar gyfer y cynllun hwn yn unig. Bydd cyflwyno nifer fawr o anfonebau amhriodol i'r gweithredwr yn cynyddu'r posibilrwydd o'ch cais yn cael ei wrthod, ac efallai y bydd yn achosi oedi cyffredinol o ran prosesu ceisiadau.

- **A oes rhaid i'r contractwr fod yn gofrestredig ar gyfer TAW er mwyn bod yn gymwys?**
  Oes. Ni ddylid codi am TAW arnoch ar waith a gyflenwir gan gontractwr nad yw'n gofrestredig ar gyfer TAW.

- **Os ydwyf yn gwneud gwaith yn uniongyrchol ac mae'n rhaid i mi dalu TAW, a allaf adfer hyn?**
  Dim ond os ydych yn gontractwr sy'n gofrestredig ar gyfer TAW ac yn llunio anfoneb TAW berthnasol ar gyfer y gwaith a wnaed.

- **Cafodd y gwaith ei wneud gan gontractwr nad yw wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. A allwn ni hawlio ar gyfer y TAW ar y deunyddiau y gwnaethom eu prynu?**
  Na allwch. Ni allwch hawlio ar gyfer TAW ar ddeunyddiau oni bai eu bod yn cael eu cyflenwi fel rhan o gyflenwad ehangach o waith gan gontractwr sy'n gofrestredig ar gyfer TAW.

- **A allaf gyflwyno anfonebau sy'n h n na 12 mis oed os ydynt yn perthyn i waith sy'n gymwys?**
  Na allwch. Caiff anfonebau sy'n hŷn na 12 mis oed eu gwrthod oherwydd nad ydynt yn gymwys.

YMHOLIADAU AM FFURFLENNI CAIS

- **Ni fydd gan y bobl sy'n llofnodi'r ffurflen wybodaeth gyflawn am y gwaith a wneir. A oes ots?**
  Dylai fod gan y cyswllt a nodir ar y ffurflen gais wybodaeth am y gwaith a wneir. Dyma'r unigolyn y byddwn yn cyfeirio pob ymholiad ato, a dychwelyd yr holl waith papur ato. Ni fyddwn yn cyfathrebu ag unrhyw drydydd parti (e.e. contractwr, pensaer neu gysylltiadau amgen eraill).

  Mae'r llofnodwyr yn gyfrifol am y datganiadau a wneir ar y ffurflen gais.

- **Pwy all gydlofnodi'r cais?**
  Dylai'r cyd-lofnodwr fod yn rhywun sy'n meddu ar swydd gyfrifol addas o fewn yr addoldy, h.y. offeiriad, trysorydd, warden eglwys.

- **A gaiff y wybodaeth a gyflwynir ar y ffurflen gais ar gyfer yr Addoldai Rhestredig ei rhestru gydag asiantaethau statudol eraill?**
  Caiff. Caiff asiantaethau statudol eu hysbysu am bob grant a ddyfernir gan y Cynllun Addoldai Rhestredig. Mae hyn er mwyn osgoi'r posibilrwydd o arian cyhoeddus yn cael ei dalu ddwywaith ar gyfer yr un costau.

- **A allaf wneud cais am grant Addoldai Rhestredig (LPW) ac am un gan asiantaeth statudol ar gyfer yr un gwaith?**
  Gallwch. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y grant o'r asiantaeth statudol arall yn ystyried eich grant Addoldai Rhestredig. Os nad yw'n gwneud hyn, bydd rhaid i chi ad-dalu cyfran berthnasol yr arian rydych yn ei dderbyn ar gyfer y grant Addoldai Rhestredig.

- **Dyfarniadau grant blaenorol – pam na all y cynllun Addoldai Rhestredig leihau'r swm sy'n daladwy i'r addoldy, ac ad-dalu'r sefydliad grant yn uniongyrchol?**
  Mae unrhyw ddyfarniad grant blaenorol yn gontract rhwng yr addoldy a'r sefydliad talu grant, ac nid yw'n gysylltiedig â'r cynllun hwn.

- **Mae'r eglwys neu neuadd yr eglwys yn cael ei defnyddio hefyd ar gyfer cyfarfodydd cymunedol, grwpiau sgowtiaid ac yn y blaen. A yw hyn yn gymwys o dan y cynllun?**
  Ydy, cyhyd â bod y prif ddefnydd ar gyfer addoli crefyddol cyhoeddus, mae hyn yn iawn. Mae'n bosibl y gofynnir i chi ddarparu prawf o hwn.

  Os caiff unrhyw ran o'r addoldy rhestredig ei defnyddio ar gyfer llety, nid yw'r elfen hon yn gymwys o dan y cynllun. Lle bo anfonebau'n ymwneud â defnydd man addoli a llety, mae'n rhaid gwneud rhaniad y gost yn glir naill ai ar anfoneb neu ar y cais. Yr unig eithriad i hyn yw lle y defnyddir y llety ar sail dros dro fel lloches ar gyfer pobl ddigartref neu ar gyfer dibenion cymdeithasol/lles tebyg.

- **Mae'r addoldy ar gau ar hyn o bryd oherwydd rhesymau iechyd a Diogelwch. Felly nid yw wedi cynnal chwe gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ydw i'n gymwys o hyd?**
  Cyhyd â bod y gwaith wedi dechrau o fewn cyfnod byr i'r addoldy gael ei gau, a chyn iddo gau roedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer o leiaf chwe gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol, mae hyn yn iawn. Pan fydd oedi rhwng y cau a'r gwaith yn dechrau, cysylltwch â'r Llinell Gymorth ar 0845 601 5945 i gael cyngor.

  Sylwer y mae'n bosibl y bydd yn rhaid inni gyfeirio'ch achos at yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer penderfyniad ar gymhwyster.

- **Mae cwestiwn 23 yn peri dryswch.**
  Os ydych yn cael anhawster llenwi'r adran hon o'r cais, cysylltwch â'r Llinell Gymorth. Os oes angen egluro unrhyw bwyntiau arnom ar ôl i'r hawliad gael ei gyflwyno, byddwn yn cysylltu â'r sawl a benodwyd i dderbyn gohebiaeth.

YMHOLIADAU YNGLŶN Â CHYMHWYSTER

- **A allaf hawlio am dâl cadw yn unig lle mae'n llai na £1,000 ond yn ymwneud â gwaith a dalwyd drwy'r cynllun yn flaenorol?**
  Na allwch. Ymdrinnir â phob cais yn unigol, felly mae'n rhaid iddo gyrraedd y trothwy gofynnol o £1,000. Os yw'ch tâl cadw yn debygol o fod yn llai na'r swm hwn, byddem yn eich cynghori i gadw'r cais terfynol hyd nes bod modd cynnwys yr anfoneb hon. Sylwer bod rhaid i anfonebau fod yn llai na 12 mis oed. Fodd bynnag, o 1 Hydref 2013, bydd pob addoldy rhestredig hefyd yn cael cyflwyno un hawliad gan ddefnyddio anfonebau sy'n werth llai na £1000, ond yn fwy na £500 (heb gynnwys y TAW a dalwyd) mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis (gweler nodyn 3.1).

YMHOLIADAU CYFFREDINOL

- **A oes angen i mi gofrestru gyda'r cynllun cyn gwneud cais?**
  Nac oes, nid oes gofyniad i gofrestru o flaen llaw. Wedi i'r gwaith gael ei gwblhau a'r anfoneb ei thalu, dylech gyflwyno'r cais.

- **Beth yw'r dyddiad cau / terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais?**
  Bydd y cynllun ond yn derbyn anfonebau hyd at 12 mis o'r dyddiad cyflwyno. Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynllun tan fis Mawrth 2020.

- **A oes cyfyngiad ar nifer y ceisiadau y gallaf eu cyflwyno?**
  Nac oes.

- **Apeliadau – Beth os wyf yn anghytuno â'r grant a delir i mi ar gyfer hawliad?**
  Yn y lle cyntaf, dylech gysylltu â'r Llinell Gymorth Mannau Addoli Rhestredig. Os yw'r mater yn parhau heb ei ddatrys, cyfeirir eich cais at yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer penderfyniad terfynol.

- **Wrth wneud cais, a allwn ni enwebu i bwy y gwneir y taliadau?**
  Dylid gwneud taliadau i'r sefydliad sy'n talu'r cost y TAW am yr atgyweirio – y Cyngor Plwyf Eglwysig neu gorff priodol fyddai hwn fel arfer.

Atodiad A

LLOEGR
English Heritage

English Heritage
Heritage Protection Operations Department
1 Waterhouse Square
138-142 Holborn
London EC1N 2ST

Ffôn: 0207 973 3000
http://www.english-heritage.org.uk
http://www.english-heritage.org.uk/professional/protection/process/national-heritage-list-for-england/

YR ALBAN
Historic Scotland

Longmore House
Salisbury Place
Edinburgh EH9 1SH

Ffôn: 0131 668 8600
http://www.historic-scotland.gov.uk

CYMRU
Cadw

Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 336000
Ffacs: 01443 336001
http://www.cadw.wales.gov.uk

GOGLEDD IWERDDON
Adran yr Amgylchedd

Department of Environment Headquarters
Clarence Court
10 - 18 Adelaide Street
Town Parks
Belfast BT2 8GB

Ffôn: 028 9054 0540
Ebost: enquiries@doeni.gov.uk
Gwe: http://www.doeni.gov.uk

Gwneud Cais i Gael Adeilad Wedi'i Restru

Mae adeiladau'n cael eu hystyried mewn dwy ffordd:

- gall unrhyw un ofyn i'r corff priodol a restrir uchod ystyried adeilad unigol;
- rhestrir adeiladau os nodir eu bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

Os ydych am i adeilad gael ei ystyried ar gyfer ei restru, dylech anfon y canlynol i'r awdurdod rhestru perthnasol a nodir uchod:

- ffotograffau clir gwreiddiol o'r adeilad yn dangos pob ochr y gellir mynd ati fel y maent ar hyn o bryd, gan gynnwys ffotograffau o'r tu mewn os yw hynny'n bosibl (nodwch beth ydynt ar gefn y ffotograffau);
- map Arolwg Ordnans neu ran o fap 'A to Z' (neu gynllun safle cyfoes) sy'n dangos ble yn union mae'r adeilad – os yw'n bosibl nodwch o ba gyfeiriad y tynnwyd y lluniau a'i god post;
- unrhyw wybodaeth sydd gennych am nodweddion hanesyddol neu bensaernïol diddorol yr adeilad; manylion am unrhyw fygythiad i'r adeilad y gwyddoch amdano a allai effeithio ar ei ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol;
- enwau a rhif ffôn cyswllt y perchennog, lle bo'n bosibl.

Gallwch wneud cais ar-lein neu ddod o hyd i ragor o wybodaeth drwy'r cyfeiriadau gwe a ganlyn:

Lloegr:
https://www.historicengland.org.uk/listing/apply-for-listing/

Yr Alban:
http://www.historic-scotland.gov.uk/index/heritage/historicandlistedbuildings/listingproposal.htm

Cymru:
http://cadw.wales.gov.uk/historicenvironment/help-advice-and-grants/makingchanges/listedbuildconsent/?lang=en

Gogledd Iwerddon:
http://www.doeni.gov.uk/niea/built-home/protection/listed_buildings_p.htm